




Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

Prosiect Gigabit:

Pecyn cymorth GigaHubs

Ar gyfer partneriaid cyflawni



Project Gigabit - building fast reliable broadband for everyone in the UK



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Taflen Gwybodaeth Allweddol	2
Amserlenni	2
Cyllid	3
Cyllid grant BDUK	3
Caffael	4
Sicrwydd	4
Cam 1 – Cychwyn y Prosiect	5
Cam 1A - Rolau a chyfrifoldebau yn y sefydliad arweiniol	5
Cam 1B – Sefydlu'r cydweithrediad	6
Cam 1C- Datblygu cwmpas y prosiect	7
Cam 1D – Sefydlu cwmpas y prosiect	8
Cam 1E – Canfod opsiynau caffael	9
Cam 2 - Cyflwyno	10
Cam 3 – Rhedeg caffael	11
Cam 4 – Cyflawni'r Prosiect	12
Cam 5 - Tracking benefits	13





Cyflwyniad

Cyd-destun

GigaHubs yw un o'r cynhyrchion mae Building Digital UK (BDUK) yn eu defnyddio i gyflawni uchelgais y llywodraeth o alluoedd gigabit ledled y DU erbyn 2030. Fel rhan o'r Prosiect Gigabit ehangach, bydd GigaHubs yn defnyddio hyd at £110 miliwn i gysylltu adeiladau cyhoeddus fel ysgolion gwledig, meddygfeydd a llyfrgell â band eang gigabit. Bydd hyn yn helpu meddygon teulu i gynnig ymgynghoriadau fideo o bell a galluogi dosbarthiadau cyfan o blant ysgol i fod ar-lein, ar yr un pryd, heb ddim i dorri ar eu traws.

Mae'r llywodraeth am gysylltu hyd at 7,000 o adeiladau yn y sector cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yr adeiladau hyn yn gweithredu fel hybiau i fynd â rhwydweithiau gigabit i galon cymunedau ac i symbylu cwmnïau band eang eraill i adeiladu arnynt. O ganlyniad, bydd BDUK yn darparu cyllid i adeiladu seilwaith ar gyfer yr adeiladau sector cyhoeddus 'anoddaf i'w cyrraedd' lle mae'r achos dros fuddsoddi'n amlwg.

Mae GigaHubs wedi'u creu i helpu sefydliadau sy'n gallu:

- Cynnig rhestr o adeiladau sector cyhoeddus (sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus a sydd â chyfiawnhad busnes), sydd angen gwella eu cysylltedd, a fydd wedyn yn gallu gweithredu fel hyb i gysylltu rhagor o adeiladau preswyl a busnes.
- Meithrin cydweithrediad â sefydliadau sector cyhoeddus lleol eraill.
- Arwain y grŵp cydweithredol drwy gamau GigaHubs.
- Hybu gweithgarwch caffael ar gyfer yr holl sefydliadau partner.
- Canfod uwch arweinydd i weithredu fel hyrwyddwr lleol, gyda chefnogaeth BDUK.
- Cael a/neu ddarparu cyllid ychwanegol i gynyddu niferoedd y canolfannau newydd.
- Caffael gwasanaethau cysylltedd ar ôl adeiladau GigaHubs ar gyfer eu gofynion eu hunain.

Mae dull safonol GigaHubs yn hanfodol i sicrhau bod cydweithrediad GigaHubs yn cael ei reoli'n effeithiol, bod buddiannau'n cael eu gwireddu ac y ceir Gwerth am Arian.



Mae'r pecyn cymorth hwn ar gyfer:

- Arweinyddion mewn awdurdodau lleol neu sefydliadau cyhoeddus eraill i sefydlu a rhedeg GigaHubs sy'n cynnig seilwaith sy'n gallu darparu gigabit i safleoedd yn y sector cyhoeddus.

Bydd hefyd o ddiddordeb i :

- Aelodau Uwch Fyrddau Rheoli gyda chyfrifoldebau goruchwyllo am fand eang a gweithgarwch cysylltedd o fewn eu hawdurdodau lleol.
- Gweithwyr proffesiynol unedau busnes sy'n gweithio i wella cysylltedd o fewn ardal benodol.




Gwybodaeth allweddol – amserlenni

Amserlenni dangosol

Dylai prosiectau ddisgwyl treulio amser yn paratoi a sicrhau lle ar restr aros prosiect GigaHubs BDUK. Pan fydd cefnogaeth BDUK wedi'i sicrhau, disgwylir i brosiectau gadw at amserlen y prosiect a symud ymlaen yn gyflym i ddyfarnu contract a chychwyn ar weithgarwch adeiladu.

Bydd BDUK yn monitro cynnydd prosiectau drwy'r broses pwyntiau gwirio porth. Dangosir amcangyfrif o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â phob cam yn y diagram ar y dde.



Ffig 1 – Amserlenni Dangosol Gigahub



Gwybodaeth allweddol:cyllid

Cyllid

Datblygwyd model cyflawni hyb BDUK er mwyn i un sefydliad weithredu fel yr arweinydd caffael mewn ardal benodol. Mae hyn yn golygu pan ddefnyddir sawl ffynhonnell o gyllid, bydd angen i un sefydliad wneud trefniadau i reoli'r gyllideb gydweithredol

Os yw cyllid BDUK yn cael ei ddefnyddio, bydd hyn yn ariannu'r gwaith o adeiladu seilwaith mewn safleoedd sector cyhoeddus cymwys sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus. Bydd y cymhwystra hwn yn cael ei gyfyngu i safleoedd yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd (gweler meini prawf cymhwystra GigaHubs). Mae hyn yn golygu os gellir sicrhau cyllid ychwanegol (heb fod gan (BDUK) y disgwylir y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gysylltu unrhyw safleoedd posibl eraill nad ydynt yn dod o fewn cwrdd meini prawf cymhwystra GigaHubs, ond sy'n gwella ac yn ychwanegu at achos busnes a buddiannau cyffredinol y prosiect.

Ar y cyfan bydd gan brosiectau GigaHubs ddull cyllido aml-barti, yn enwedig lle mae safleoedd yn cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer unrhyw gyllid lleol neu genedlaethol arall y gellir ei sicrhau. Er enghraifft, gallai prosiect gael ei ariannu ar y cyd gan ffynonellau sy'n cynnwys:

- GigaHubsBDUK (ar gyfer yr ardaloedd anoddaf i'w cyrraedd).
- Gweithgaredd ymyriadau Cyflym lawn yn y gorffennol.
- Cronfeydd datblygu economaidd lleol.
- Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).
- Adrannau eraill y llywodraeth.

Cyllid grant BDUK

Os yw cyllid BDUK yn cael ei ddefnyddio, bydd hwn yn cael ei roi o dan Gytundeb Cyllid Grant (GFA) a bydd yn ariannu costau cyfalaf a ganiateir sy'n gysylltiedig ag adeiladu seilwaith mewn safleoedd sector cyhoeddus cymwys. Bydd y cyllid hwn yn cael ei gyfyngu i safleoedd cymwys yn amodol ar gyfiawnhad busnes, gwerth am arian, ac egwyddorion rheoli cymorthdaliadau. Ni fydd cyllid ar gael lle mae adeiladu masnachol wedi'i gadarnhau a lle mae gweithgaredd arall a fydd yn darparu gwasanaethau gigabit ar waith .

Bydd taliad yn cael ei wneud i'r sefydliad arweiniol ar ôl derbyn ceisiadau grant wedi'u cwblhau'n llawn. Dylai'r rhain fod wedi'u cysylltu â cherrig milltir y contract lle bydd taliad am garreg filltir a gwblhawyd yn amodol ar gadarnhad gan y prosiect lleol bod y gwaith wedi'i gwblhau'n ôl y manylebau.

Y cyllid ar gyfer carreg filltir fydd cyfanswm y cyllid unigol ar gyfer pob safle o fewn y garreg filltir.

Os gwnaed darpariaeth ar gyfer cwblhad rhannol yn y model masnachol dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y cytundeb grant.

Am ragor o wybodaeth am egwyddorion rheoli cymorthdaliadau gweler y canllaw rheoli cymorthdaliadau ar gyfer GigaHubs [yma](#).



Gwybodaeth allweddol: caffael a sicrwydd

Caffael

Nid yw BDUK yn ffafrio unrhyw lwybr penodol i'r farchnad ar gyfer caffael. Bydd y grŵp cydweithredu'n dewis pa bynnag lwybr a ffefrir ganddynt a disgwylir iddynt gael cyngor cyfreithiol i sicrhau bod caffael yn cydymffurfio â'r holl reolau.

Os nad oes fframwaith caffael priodol ar gael, mi all prosiectau GigaHubs ddefnyddio'r System Prynu Dynamig (DPS) ar gyfer Cysylltedd Galluogrwydd Gigabit (RM6095). Mae hyn yn cynnwys cyflenwyr sydd wedi cymhwyso'n barod a dogfennaeth safonol.

Cyn rhoi cyllid, bydd BDUK yn asesu strategaethau caffael drwy broses sicrwydd i wirio bod egwyddorion masnachol allweddol wedi'u cynnwys.

Sicrwydd

I sicrhau bod prosiectau'n rhedeg yn esmwyth a bod unrhyw broblemau'n cael eu hamlygu a bod modd delio'n effeithiol â hwy, bydd prosiectau GigaHubs yn mynd drwy nifer o bwyntiau gwirio sicrwydd lle bydd BDUK yn adolygu prosiectau yn erbyn egwyddorion allweddol. Y rhain yw:

Cyn y Contract

- Cyfarfod cymeradwyo bwrw ymlaen cychwynnol (cynhelir yn fewnol gan BDUK).
- Gwirio'r strategaeth gaffael (Pwynt gwirio A/B).
- Cynigydd a ffefrir a gwirio data (Pwynt Gwirio C).

Cyflawni (os yn gymwys)

- Adolygiad prosiect byw (Pwynt gwirio D).
- Gwirio am unrhyw am newid mewn cais (Pwynt gwirio E).

Ar ôl Adeiladu:

- Cwblhau (Pwynt gwirio F).

GigaHubs Assurance Overview

An overview of some of the key tasks required in order to complete stages of the BDUK assurance process can be seen below:

Project phase		Local project tasks
Initiation	Identify project champion	<ul style="list-style-type: none"> • Read through the GigaHubs toolkit • Reach out to BDUK for support through the Local Delivery Lead network. • Understand and agree to the role and responsibilities of the Project Champion.
	Build Project Cohort and Establish project scope	<ul style="list-style-type: none"> • Send introductory letters to potential local partners • Run the inaugural meeting • Capture <i>initial</i> site list data • Gather MoUs from partner organisations within the cohort
	Procurement options	<ul style="list-style-type: none"> • Identify potential procurement routes • Submit project documentation to BDUK for assurance.
Procurement strategy	Project funding	<ul style="list-style-type: none"> • Establish budgets • Establish and run governance for procurement • Update site list as required • Management of collaborative budgets
	Procurement preparations	<ul style="list-style-type: none"> • Procurement strategy • Where procurement uses RM6095 GGC DPS, follow additional guidance and process • Draft grant agreement prepared
BDUK Checkpoint A/ B – Ready to procure		
Procurement	Competition to select supplier and agree prices	<ul style="list-style-type: none"> • Ensure site data list is fully updated for pre-award assurance. • Ensure final contract documentation is available for assurance. • Grant award finalised.
	BDUK Checkpoint C – Contract award	
Build	Build	<ul style="list-style-type: none"> • Issue milestone completion certificates as build progresses. • Claim grant payments. • Make supplier payments. • Manage collaborative budget.
	BDUK Checkpoint D - In Life Review	
BDUK Checkpoint E – Change control		
Benefits	Benefits realisation	<ul style="list-style-type: none"> • Confirm site migrations when complete. • Provide DCMS Management Information as required.
	BDUK Checkpoint F - Project Closure	

Click [here](#) to download



GigaHubs: cychwyn prosiect

Diben yr adran hon yw eich helpu i gael popeth sydd ei angen arnoch i gychwyn prosiect GigaHubs ar ôl i chi gyfarwyddo'ch hun â'r wybodaeth allweddol sydd wedi'i rhannu yn y tudalennau rhagarweiniol.

Mae rhestr wirio lawn o gamau sydd angen eu cymryd yn y cam hwn i'w cael [yma](#).

Cam 1A- Rolau a chyfrifoldebau yn y sefydliad arweiniol Hyrwyddwr y Prosiect

I ddechrau ar Brosiect GigaHubs, bydd angen i chi ddewis unigolyn i weithredu fel Hyrwyddwr y Prosiect. Eu rôl yw bwrw ymlaen â'r prosiect drwy gynorthwyo tîm y prosiect i gyrraedd cerrig milltir, a nodau'r prosiect.

Er mwyn bod yn effeithiol yn eu rôl, dylai Hyrwyddwr y Prosiect fod â swydd uwch o fewn y sefydliad arweiniol, bod yn gyfathrebwr effeithiol, yn gallu cymryd rhan o'r dechrau, a chefnogi'r prosiect yn frwdfrydig. Ar ôl eu dewis, dylent gyfarwyddo'u hunain â chynnwys y ddogfen hon, y rhestr fanwl o gyfrifoldebau, a chysylltu ag Arweinydd neu Reolwr Cyflenwi Lleol BDUK.

Os bydd Hyrwyddwr y Prosiect yn gadael y sefydliad am unrhyw reswm, disgwylir y bydd Hyrwyddwr Prosiect amgen yn cael ei recriwtio mewn modd amserol.

Y Sefydliad Arweiniol

Er y bydd BDUK yn cefnogi sefydliadau partner i gyflawni Prosiectau GigaHubs, bydd angen i'ch sefydliad arwain a gweithredu fel prif asiantaeth y prosiect. Dyma rai o'r tasgau dan sylw :

- I. Sefydlu strwythur llywodraethu'r prosiect;
- II. Rhedeg prosiect caffael;
- III. Sefydlu cytundeb grant gyda BDUK;
- IV. Sefydlu a chynnal trefniadau ariannu cydweithredol;
- V. Llofnodi contract gyda chyflenwr;
- VI. Cynnal profion cerrig milltir a gwneud taliadau i gyflenwyr;
- VII. Hawliadau grant a gweithgareddau rheoli ariannol;

Dylai'r tasgau hyn gael eu trafod ag arweinyddion a byrddau perthnasol yn eich sefydliad I gadarnhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn fodlon bod gan y sefydliad yr adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol I sefydlu ac arwain y cydweithrediad GigaHubs.



GigaHubs: Cychwyn y prosiect

Cam 1B – Sefydlu'r cydweithredu

Datblygu partneriaeth

Mae model GigaHubs yn creu cyfleoedd di-ri i sefydliadau'r sector cyhoeddus gydweithio i hwyluso'r gwaith o ddarparu technoleg gigabit i gynifer o adeiladau cyhoeddus â phosibl. Drwy sefydlu dull cydweithredol, bydd caffael GigaHubs yn sicrhau Gwerth am Arian (VfM) drwy leihau'r gost fesul adeilad a gysylltir a sicrhau nad yw'r Llywodraeth yn cystadlu â'i gilydd wrth gaffael seilwaith mewn ardal leol.

Oherwydd hyn, gofynnwn i chi greu rhestr o bartneriaid lleol posibl a chysylltu â hwy i ddeall eu hanghenion a gwahodd datganiadau o ddiddordeb mewn ymuno â phrosiect GigaHubs.

Bydd angen cadw cofnod o'r gweithgaredd hwn, gan gynnwys negeseuon e-bost ac ymatebion, a chofnod o unrhyw gyfarfodydd a sgysiau gan y bydd angen y rhain i wirio hyfywedd y prosiect.

Y cyfarfod cyntaf

Ar ôl i chi gael rhestr o bartïon â diddordeb, trefnwch y cyfarfod cyntaf (dylech gynnwys eich arweinydd cyflenwi BDUK lleol) a chofnodi'r canlyniadau o ran:

1. Lefelau diddordeb.
2. Arwydd o'r galw am wasanaethau gigabit ar draws yr ystâd.
3. Cyfrif dangosol o safleoedd.
4. Trefniadau gwasanaeth cyfredol (contractau, terfynau neu gyfyngiadau).
5. Ffynonellau posibl o gyllid ychwanegol.
6. Cytundeb o'r math(au) o wasanaeth sydd eu hangen.
7. Ffiniau daearyddol arfaethedig y prosiect.

Cadarnhau'r bartneriaeth

Fel y sefydliad arweiniol, bydd yn rhaid i chi hefyd sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol i'r prosiect i gynnal y cydweithrediad. Bydd hyn yn gofyn am feddylfryd cadarn, cyfathrebu a threfniadaeth effeithiol, a sicrhau bod cyfarfodydd llywodraethu'n cael eu cynnal rhwng yr holl sefydliadau sy'n cydweithio.

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gofynnwch i bawb sydd â diddordeb gadarnhau eu hymrwymiad drwy gasglu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gan ddefnyddio'r templed a rhannu templed cofnodi rhestr y safleoedd ar gyfer pob sefydliad partner (gan gynnwys eich un chi), i gael cofnod manwl o'u safleoedd dangosol.

Pan fyddwch wedi cadarnhau cwmpas y prosiect a'r rhestr safleoedd, cadarnhewch ei ffiniau daearyddol.



GigaHubs: cychwyn y prosiect

Cam 1C – Datblygu cwmpas y prosiect

Pecyn cymorth achos busnes

Nod pecyn cymorth achos busnes yw rhoi gwaelodlin manwl i'r prosiect i gyfleu'n gryno natur a chwmpas y prosiect, ei fforddiadwyedd a'i allu i gyflawni yn erbyn risgiau a nodwyd.

Mae'r pecyn cymorth achos busnes wedi'i gynllunio i sicrhau mai dim ond y lefel ofynnol o wybodaeth a gesglir ym mhob cam o broses sicrwydd GigaHubs. Bydd hyn yn sicrhau bod y lefel briodol o adnoddau'n cael ei dyrannu i alluogi pontio esmwyth rhwng pob cam i ganfod a yw cynnig yn hyfyw ac yn cyd-fynd yn llawn â GigaHubs. Caiff cwestiynau eu hailadrodd drwy gydol y pecyn cymorth i ganiatáu i berchnogion cyfrifol ychwanegu mwy o fanylion, ond os nad oes angen diweddariad, defnyddiwch y cynnwys o'r cam blaenorol. Caiff gwaith monitro, adrodd a chwblhau'r prosiect ei gofnodi yn ystod y camau diweddarach.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y pecyn achos busnes, a'r dogfennau cysylltiedig, yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr achos busnes llawn i gyd mewn un lle. Gellir ychwanegu hyn ato wrth i brosiect GigaHubs fynd yn ei flaen.

Model Busnes Pum Achos

Yn unol â 'Model Busnes Pum Achos' Trysorlys EM, bydd yr achos busnes yn casglu gwybodaeth gan gynnwys yr:

- **Achos Strategol** - Bydd yr adran hon yn gofyn am achos cadarn dros newid.
- **Achos Economaidd** - Bydd yr adran hon yn gofyn am ddisgrifiad o sut y bydd y prosiect yn gwneud y gorau o werth gorau am arian a buddiannau.
- **Achos Masnachol** - Bydd yr adran hon yn gofyn am ddisgrifiad o sut y gellir cyflawni'r prosiect yn fasnachol e.e. defnyddio caffael.
- **Achos Ariannol** - Bydd yr adran hon yn amlinellu'r gyllideb ofynnol, ffynonellau arian a fforddiadwyedd.
- **Achos Rheoli** - Bydd yr adran hon yn nodi sut y caiff y prosiect ei lywodraethu a sut y gellir ei gyflawni.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn gweler rhestr wirio Trysorlys EM ar gyfer asesu busnes Achos [yma](#)



GigaHubs: cychwyn y prosiect

Er mwyn bod yn gymwys am gyllid GigaHubs rydym yn chwilio'n ddefrydol am brosiectau gydag o leiaf 100 o safleoedd cymwys.

I gael gwybodaeth am gyflwyno safleoedd posibl i'w dadansoddi, gweler templed cyflwyno safleoedd GigaHub [yma](#).

Cam 1D - Sefydlu cwmplas y prosiect - llunio rhestr o safleoedd

Adolygiad cychwynnol DCMS o restrau safleoedd

Fel rhan o'n proses sicrwydd, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno'r holl restrau o'r safleoedd, er mwyn galluogi BDUK i gynnal adolygiad cychwynnol i ganfod a yw'r safleoedd a nodwyd yn gymwys i fod yn rhan o Brosiect GigaHubs ac a ydynt yn gymwys i gael cyllid BDUK. Er mwyn bod yn gymwys am gyllid GigaHubs rydym yn chwilio am brosiectau gydag o leiaf 100 o safleoedd cymwys. Mae'n hanfodol bod y rhestr safleoedd wedi'i chwblhau'n llawn i safon uchel a'i bod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob safle a gyflwynir:

- Math o safle.
- Enw'r safle.
- Cyfeiriad llawn gan gynnwys cod post.
- UPRN (*Mae'r Cyfeirnod Eiddo Unigryw yn ddynodwr alffaniwmerig unigryw ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain Fawr a gellir ei weld yn adnoddau AddressBase Arolwg Ordans*).

Meini prawf cymhwysra GigaHubs

Mae'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cymhwysra ar gyfer rhaglen GigaHubs fel a ganlyn:

Gwirio cymhwysra

- Safle sy'n cael ei gyfrif fel adeilad sector cyhoeddus ac sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.
- **Lleoliad gwledig** (a ddiffinnir yn ôl mesurau safonol y cytunwyd arnynt yn y rhan berthnasol o'r DU). Bydd safleoedd yn yr ardaloedd canlynol yn cael eu diffinio fel.
 - [Cymru a Lloegr – diffiniadau'r ONS D1 – F2](#)
 - [Gogledd Iwerddon – diffiniadau NISRA E – H](#)
 - [Yr Alban – diffiniadau NRS 3 – 8](#)
- Cyflymderau band eang presennol yn llai na 100Mbps.
- Nid oes rhwydwaith gyda galluogrwydd gigabit yn debygol o gael ei adeiladu yn yr ardal honno'n fasnachol yn y dyfodol agos.
- Nid oes contract a ariennir gan y llywodraeth wedi'i gynllunio nac ar waith i wella'r rhwydwaith eisoes.





GigaHubs: Cychwyn y Prosiect

Tra byddwch yn aros i'r holl bartneriaid cydweithredu gwblhau rhestrau o safleoedd, ac i gael eu hasesu gan BDUK, rydym yn argymhell eich bod yn canolbwyntio ar nodi ac adolygu'r opsiynau Caffael ac Ariannu sydd ar gael.

Cam 1E - Canfod opsiwn caffael

Llwybrau caffael

Nid yw DCMS yn ffafrio unrhyw lwybr penodol i'r farchnad ar gyfer caffael. Bydd y grŵp cydweithredu yn dewis pa bynnag lwybr sydd orau ganddynt ac mae'n ofynnol eu bod yn cael cyngor cyfreithiol i sicrhau bod caffael yn parhau i gydymffurfio â'r holl reoliadau.

Os nad oes contract presennol neu fframwaith caffael priodol yn bodoli, bydd prosiectau GigaHubs yn gallu defnyddio'r System Prynu Dynamig (DPS) ar gyfer Cysylltedd Galluogrwydd Gigabit (RM6095). Mae hyn yn cynnwys cyflenwyr sydd wedi cymhwyso eisoes a dogfennaeth safonol y gallwch eu teilwra i anghenion y partneriaid.

Cyn darparu cyllid, bydd DCMS yn asesu strategaethau caffael drwy broses sicrwydd i wirio bod egwyddorion masnachol allweddol wedi'u cynnwys.

DPS ar gyfer Cysylltedd Galluogrwydd Gigabit

Lle mae'r strategaeth gaffael yn cynnig defnyddio System Prynu Dynamig Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS) ar gyfer Cysylltedd Galluogrwydd Gigabit (GCC), y cyfeirir ato fel RM6095, dylai hyrwyddwyr prosiectau gyfeirio at y canllawiau atodol sydd ar gael.

Mae manylion llawn a buddiannau rhedeg y broses gaffael drwy'r llwybr hwn i'w gweld yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Arbedion yn sgil costau is.
- Hyd hyblyg contractau.
- Datblygu dull yn barhaus i ymgorffori arferion gorau.
- Mân gyfyngiadau.
- Arbenigedd sy'n deillio o DCMS a CCS

Strategaeth Gaffael

Yn dilyn yr adolygiad o'r holl opsiynau caffael sydd ar gael, a chadarnhad gan yr holl bartneriaid eu bod yn cefnogi'r llwybr arfaethedig i'r farchnad, gofynnwn i chi baratoi'r dogfennau gofynnol i'ch galluogi i rannu strategaeth gaffael glir ar gyfer proses sicrwydd y DCMS.

Os ydych wedi penderfynu peidio â defnyddio RM6095, rydym yn argymhell eich bod yn cynnal adolygiad trylwyr o'r fframwaith a'r dull gweithredu arfaethedig i sicrhau ei fod yn bodloni holl egwyddorion masnachol allweddol BDUK ac yn cyd-fynd â'r gofynion a geir yn PCR 2015.



GigaHubs: Submission

Cam 2 – Cyflwyno

Paratoi dogfennaeth GigaHubs ar gyfer pwynt gwirio A/B

Cyn cyflwyno dogfennau GigaHubs, dylech sicrhau eich bod wedi darllen a deall y pecyn cymorth hwn yn llawn a'ch bod wedi trafod unrhyw amheuon gyda'ch pwynt cyswllt o fewn BDUK. Rydym hefyd yn argymhell eich bod yn darllen yr holl ddeunydd canllaw atodol mewn perthynas â chyfleoedd ariannu ac RM6095.

Pan fyddwch yn barod i gyflwyno, cysylltwch â'ch partner / rheolwr cyflenwi BDUK lleol i gytuno ar y datrysiad gorau i chi yn ddibynnol ar nifer y dogfennau y byddwch yn eu rhannu. Cyn belled â bod cyfathrebu effeithiol wedi digwydd drwy gydol y cam cyntaf hwn, byddant hefyd yn gallu darparu asesiadau anffurfiol ar ansawdd eich dogfennaeth GigaHubs a hyfywedd prosiectau GigaHubs.

Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

Checkpoint A/B Checklist

1. A cover page identifying key roles and responsibilities
2. List of potential public sector partners with associated contact points
3. A log of all communication with the identified potential partners
4. Inaugural and governance meetings minutes
5. Signed MoUs for all collaboration partners
6. Signed Non Disclosure Agreement between DCMS and the Local Body
7. Agreement in principle to the Grant Agreement
8. Completed site lists (section 1) for all collaboration partners
9. Procurement strategy
10. Detail of any additional approval process/es needed from the Local Body. For example any Cabinet Member approval process including timings and when this is expected to be scheduled
11. List of potential funding opportunities identified
12. Indicative project plan with key timelines
13. Project declaration letter completed
14. VFM Assessment
15. Subsidy Control Legal Assessment
16. Confirmation that sites will take up a service from the new provider and pay ongoing costs.
17. Annex A checklist completed

Click [here](#) to download



GigaHubs: caffael

Cam 3 – Cynnal caffael

Paratoi dogfennaeth GigaHubs ar gyfer pwynt gwirio C

Ar ôl cwblhau pwynt gwirio A/B yn llwyddiannus, dylai prosiectau gychwyn ar y gweithgaredd caffael canlynol:

- Cyflwyno Gwahoddiad i Dendro (ITT) drwy'r llwybr i'r farchnad a ffefrir.
- Gwerthuso ymatebion yn unol â'r meini prawf sgorio.
- Dewis y cynigydd a ffefrir a hysbysu cynigwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.

Unwaith y bydd y cynigydd a ffefrir wedi'i ddewis, dylai prosiectau gyflwyno dogfennau'r prosiect (gan gynnwys rhagor o fanylion am werth am arian, a rheoli cymorthdaliadau) i BDUK i gael sicrwydd pwynt gwirio C.

Unwaith y bydd pwynt gwirio C wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, bydd BDUK yn ymateb gyda llythyr dyfarnu grant ffurfiol.





GigaHubs: Cyflawni

Cam 4 – Cyflawni'r prosiect

Rheoli'r gwaith o gyflawni prosiectau

Bydd y corff arweiniol yn gyfrifol am reoli'r cyflenwr o ddydd i ddydd drwy'r contract.

Ar ôl cwblhau pob carreg filltir (yn chwarterol fel arfer), dylai'r tîm prosiect lleol ofyn i'r cyflenwr ddangos bod pob agwedd berthnasol ar y ddarpariaeth wedi'i chwblhau'n llwyddiannus. Dylai'r profion tyst hwn ddilyn y dull a ddiffinnir yn y contract. Ar ôl cwblhau'r profion yn llwyddiannus, dylai'r partner arweiniol:

1. Cyflwyno tystysgrif cwblhau carreg filltir i'r cyflenwr (neu ddogfennau llywodraethu amgen fel sy'n ofynnol gan y contract);
2. Gofyn am anfoneb gan y cyflenwr;
3. Cyflwyno cais am grant i BDUK am y lleiaf o anfoneb y cyflenwr neu werth y grant ar gyfer cyfnod y cerrig milltir fel y'i cofnodir yn y cytundeb grant;
4. Gofyn am unrhyw drosglwyddiadau cyllid gan bartner cydweithredu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth;
5. Gofyn am unrhyw gyllid ychwanegol nad yw'n arian BDUK fel y cytunwyd ac sy'n ofynnol i dalu'r taliad carreg filltir;
6. Talu'r cyflenwr;
7. Cyflwyno unrhyw Wybodaeth Reoli atodol i BDUK fel sy'n ofynnol ar gyfer olrhain buddiannau.

Gofyniad i gyflwyno gwybodaeth reoli'n rheolaidd:

Bydd angen i arweinydd, derbynwyr cysylltiadau a chyflenwyr y prosiect gasglu gwybodaeth benodol am y prosiect, a'i chyflwyno i BDUK. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi BDUK i adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyffredinol GigaHubs a phennu graddfa lwyddiant gwahanol fecanweithiau cyflawni'r rhaglenni.

Sut y bydd data/gwybodaeth y rhaglen yn cael eu casglu

Mae nifer o dulliau y bydd BDUK yn eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am y rhaglen. Ni fydd arweinydd y prosiect yn gyfrifol am bob un o'r rhan prosiect, ond fel lleiafswm bydd llawer yn gofyn i arweinydd y prosiect fod yn ymwybodol ohonynt i sicrhau bod y data angenrheidiol yn cael eu cynnwys mewn trefniadau gyda chyflenwyr a derbynwyr cysylltiadau.

Bydd templed yn cael ei ddarparu gan BDUK i'w lenwi a'i ddychwelyd. Mae hyn yn ofyniad chwarterol o leiaf drwy gydol y cyfnod lle mae contractau'n fyw – cytunir ar yr union amserlenni adrodd gyda'r cyflenwr/cyfanwerthwr a BDUK. Hefyd, wrth gyflawni'r prosiect bydd BDUK yn cynnal adolygiad yn ystod oes y prosiect (pwynt gwirio D), i asesu ei statws.

Rhaid cyflwyno unrhyw gynigion rheoli newid i BDUK er mwyn cael sicrwydd (Pwynt gwirio E).

Ar ôl cadarnhau cwblhau y garreg filltir derfynol (yn unol â manylbau y cytunwyd arnynt), dylai'r prosiect arweiniol gytuno ar unrhyw hawliad grant terfynol gyda BDUK.



GigaHubs: Buddiannau

Cam 5 – Olrhain buddiannau

Adrodd ar brosiectau

Yn ystod oes y prosiect, gan gynnwys adeiladu a gwasanaethau byw wedi hynny, mae'n ofynnol bod y prosiect lleol yn casglu gwybodaeth reoli ychwanegol gan y cyflenwr i helpu i olrhain buddiannau.

Dylai prosiectau lleol hefyd gadarnhau i BDUK bod safleoedd wedi symud i wasanaethau byw pan fydd hynny'n digwydd.

Fel arfer, dylid cyflwyno'r adroddiad hwn bob chwarter am dair blynedd ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r prosiect.



Am ragor o wybodaeth am Gigahubs,
cysylltwch â'ch pwynt cyswllt gyda BDUK

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol,
anfonwch e-bost i gigahubs@dcms.gov.uk